funded by

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Chwef/Maw 2008

Grant 'Arian i Bawb Cymru' i Oldford

Mae Cymunedau yn Gyntaf Oldford wedi derbyn grant o £2,870.00 ar gyfer prosiect amgylcheddol ar Ystâd Oldford. Mae'r grant yn dod o'r rhaglen 'Arian i Bawb Cymru' a ariennir gan y Gronfa Loteri.

Defnyddir yr arian i ddarparu biniau sbwriel a biniau baw cŵn ar Ystâd Oldford—mae angen mawr amdanynt; bydd hefyd yn ariannu cyfres o Ddyddiau Tacluso Oldford a bore coffi i roi gwybodaeth am y prosiect.

Mae hyn yn hwb mawr i'r ystâd. Bydd yr arian yn ein cynorthwyo i weithio gyda'n gilydd i wella'r amgylchfyd ar ac o gwmpas Oldford.

Tynnwyd y llun isod yn CCB Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Oldford yn Neuadd y Dref ym mis Rhagfyr 2007. Lowri Jones, sydd ar y dde yn y llun, yw Swyddog Adfywio Cymunedol y Cyngor Sir [Gogledd Powys], Lowri oedd yn gyfrifol am wneud cais am a llwyddo i gael yr arian yma. Diolch yn fawr iddi am ei holl waith!

O'r chwith i'r dde:
Hannah Guntrip, Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf,
Liz Gannon, Cadeirydd y Bartneriaeth,
Mark Kerr, Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys,
Mick Bates, Democratiaid Rhyddfrydol
Lowri Jones, Cyngor Sir Powys .

Am fwy o wybodaeth, neu i ddysgu mwy ynghylch helpu gwella'r amgylchfyd ar ac o gwmpas Oldford, ffoniwch 556648.

Y Diweddaraf ar y Cynllun Gweithredu…
Mewn ymateb i'r Cynllun Gweithredu Cymunedol, bydd Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Oldford yn sefydlu'r is-grwpiau canlynol:

- Is-grŵp Cyfleusterau
- Is-grŵp Cymuned Weithgar
- Is-grŵp Addysg a Hyfforddiant
- Is-grŵp Pobl Ifanc
- Is-grŵp Amgylchedd
- Is-grŵp Troseddau a Diogelwch Cymunedol

Os hoffech chi neu rywun 'dach chi'n adnabod fod ar unrhyw un o'r is-

Yn y rhifyn hwn

Grant 'Arian i Bawb Cymru	*1*
Addunedau Newydd	*2*
Newyddion Oldford Ar-lein	*3*
Newyddion CTO	*4*
Syniadau Garddio....	*5*

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648